Ysgol Gymraeg Trefynwy

CYNGOR SIR FYNWY
POLISI DIOGELU AR GYFER YSGOLION/LLEOLIADAU ADDYSG

GWELEDIGAETH

Mae Ysgol Gymraeg Trefynwy yn gyffrous i ffynnu fel cymuned ofalgar, gyd-ddibynnol sy'n falch o fod yn Gymraeg.

CENHADAETH

Rydym yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg cyfannol sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

GWERTHOEDD

Perthyn - Rydym yn perthyn i'r gymuned yma yn Nhrefynwy ac i gymuned ddiwylliannol ehangach Cymru.
Gofalu - Rydyn ni'n gofalu am ein hunain, ein gilydd, a'n hamgylchedd.
Ffynnu - Rydym yn ffynnu am ein bod yn barod i lwyddo.

Polisi Diogelu ar gyfer Ysgol Gymraeg Trefynwy

Cyflwyniad

1.1 Mae Ysgol Gymraeg Trefynwy yn cydnabod yn llawn y cyfraniad y mae'n ei wneud at ddiogelu oedolion a phlant sydd mewn perygl.

Mae tair prif elfen i'n polisi:-

a. Atal trwy'r diwylliant, addysgu a chefnogaeth fugeiliol a gynigir i ddysgwyr;
b. Gweithdrefnau ar gyfer adnabod a rhoi adroddiadau am achosion, neu achosion a amheuir, o gam-drin – oherwydd ein cyswllt o ddydd i ddydd â phlant mae ein staff mewn sefyllfa dda i sylwi ar arwyddion allanol o gam-drin.
c. Cefnogaeth i ddysgwyr a all fod wedi profi camdriniaeth neu niwed.

1.2 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn Ysgol Gymraeg Trefynwy a'r Llywodraethwyr. Gall cynorthwywyr dysgu, goruchwylwyr ganol dydd, gofalwyr, ysgrifenyddion, gwirfoddolwyr yn ogystal ag athrawon fod yn fan datgelu cyntaf i blentyn. Mae'r cyswllt cyntaf hwn yn rhan bwysig o'r broses ddiogelu ac mae'n hanfodol i'r holl staff, gwirfoddolwyr a Llywodraethwyr fod yn gwybod am y gweithdrefnau fel y'u nodir yn y polisi hwn a'u gweithredu.

Atal

2.1 Rydym yn cydnabod bod hunan-barch, hyder, cyfeillion cefnogol a llinellau cyfathrebu da gydag oedolyn yr ymddiriedir ynddo yn helpu i ddiogelu dysgwyr yn Ysgol Gymraeg Trefynwy**.**

Mae dulliau Ysgolion Ystyriol o Drawma (YYD) yn parhau i fod wedi eu hymwreiddio ar draws Cyngor Sir Fynwy. Mae YYD yn adlewyrchu'r model cysylltiol o ddeall plant/pobl ifanc sy'n dangos ymddygiad sy'n peri pryder ac yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a gallu oedolion sy'n cefnogi disgyblion bregus.

Byddwn felly yn:-

a. Sefydlu a chynnal ethos lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu hannog i siarad, rhannu eu pryderon ac yn cael gwrandawiad;
b. Sicrhau bod dysgwyr yn gwybod y gellir mynd at yr holl staff a gwirfoddolwyr yn y lleoliad hwn os byddant yn bryderus neu yn ei chael yn anodd;
c. Cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd ar gyfer addysg perthnasoedd a rhywioldeb yn y cwricwlwm i gynyddu dealltwriaeth dysgwyr o berthnasoedd iach, diogel sy'n rhoi boddhad a'u cyfranogiad ynddynt, er mwyn gallu adnabod perthnasoedd lle mae cam-drin neu nad ydynt yn iach a cheisio help a chefnogaeth;
d. cynnwys deunydd yn y cwricwlwm a fydd yn helpu dysgwyr i ddatblygu agweddau realistig at gyfrifoldebau bywyd oedolion, yn neilltuol o ran gofal plant a sgiliau magu plant;
e. llunio perthynas ag asiantaethau eraill a sicrhau bod cyfeirio cynnar ac addas i gael cefnogaeth ac ymyrraeth cyn i'r risgiau waethygu;

f. Cynnwys yn ethos y lleoliad bod gan bobl yr hawl i fod yn ddiogel rhag camdriniaeth ac i wybod at bwy y gallant droi i gael help;
g. Defnyddio dull ysgol/lleoliad-cyfan tuag at lesiant a fydd yn ymgorffori diogelu a chamau ataliol i gefnogi plant a theuluoedd. Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol | LLYW.CYMRU

Gweithdrefnau

3.1 Yn Ysgol Gymraeg Trefynwy byddwn yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a chyfarwyddyd a phrotocolau eraill sydd wedi cael eu cymeradwyo a'u cytuno gan Fwrdd Diogelu Gwent.

3.2 Bydd yr ysgol yn: -

a. Sicrhau bod gan yr ysgol Berson Diogelu Dynodedig sydd wedi dilyn yr hyfforddiant priodol yn unol â gofynion cenedlaethol a lleol y cytunwyd arnynt. Bydd yr ysgol hwn hefyd yn enwebu dirprwy a enwir a fydd yn gyswllt canolog ar adegau pan fydd y Person Diogelu Dynodedig yn absennol/ddim ar y safle.
b. Cydnabod swyddogaeth y Person Diogelu Dynodedig a threfnu i gefnogaeth fod ar gael iddo/iddi
c. Sicrhau bod y Person Diogelu Dynodedig yn gallu cael mynediad at y lefel briodol o hyfforddiant diogelu
d. Sicrhau bod holl aelodau'r staff, gan gynnwys rhai parhaol, rhan-amser a gwirfoddolwyr sy'n oedolion, (a llywodraethwyr ysgol/byrddau rheoli) yn gwybod:-

    - enw'r Person Diogelu Dynodedig (a'r rhai sy'n dirprwyo) a'u swyddogaeth, y man cyswllt yn yr awdurdod lleol a'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu
    - Bod ganddynt gyfrifoldeb unigol am roi adroddiad am blant sydd mewn perygl a phryderon amddiffyn i'r gwasanaethau cymdeithasol, neu i'r heddlu, o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.
    - sut i symud y pryderon hynny ymlaen pan na fydd y Person Diogelu Dynodedig neu ei Ddirprwy ar gael
    - Y bydd y Person Diogelu Dynodedig a'r dirprwy yn ceisio cyngor gan y Swyddog Arweiniol dros Ddiogelu mewn Addysg a/neu'r Tîm Dyletswydd Gwasanaethau Cymdeithasol os bydd angen pan fydd cyfeirio/adroddiad diogelu yn cael eu hystyried; os oes amheuaeth am gyfeirio/llunio adroddiad diogelu, rhaid ei anfon.

e. Sicrhau bod holl aelodau'r staff yn ymwybodol o'r angen i fod yn effro am arwyddion o gam-drin ac yn gwybod sut i ymateb i ddysgwr a all ddatgelu camdriniaeth neu esgeulustod.
f. Sicrhau bod aelodau o'r staff sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg yn ymwybodol o God Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol CGA a'r disgwyliad yn y Cod bod yr un sydd wedi cofrestru yn ystyried diogelwch a llesiant dysgwyr dan eu gofal a chynnwys cysylltiedig

g. Sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn deall y cyfrifoldeb a roddir ar yr ysgol a'r staff am ddiogelu ac amddiffyn plant trwy nodi ei ymrwymiadau yn nhaflen yr ysgol
h. Rhoi hyfforddiant i'r holl staff fel eu bod:-

   i) Yn deall eu cyfrifoldeb personol;
   ii) Yn gwybod am y gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt a'u dyletswydd i ymateb
   iii) Yn deall yr angen i fod yn wyliadwrus wrth ddynodi achosion a amheuir o gam-drin ac esgeulustod;
   iv) Gwybod sut i gefnogi plentyn sy'n datgelu camdriniaeth neu esgeulustod
   v) Deall y rhan y gall ymddygiad ar-lein ei chwarae ym mhob un o'r uchod

i. Hysbysu tîm Gwasanaethau Plant yr awdurdod lleol os: – bydd dysgwr ar y gofrestr diogelu plant yn cael ei wahardd, naill ai am gyfnod penodol neu yn barhaol – bydd absenoldeb heb esboniad dysgwr ar y gofrestr diogelu plant am fwy na dau ddiwrnod o'r ysgol (neu un diwrnod yn dilyn penwythnos)
j. Gweithio i ddatblygu cysylltiadau effeithiol gyda'r asiantaethau perthnasol a chydweithio yn ôl y gofyn gyda'u hymholiadau am blant ac oedolion sydd mewn perygl gan gynnwys presenoldeb mewn cynadleddau amddiffyn plant, grwpiau craidd a chyfarfodydd dilynol a chefnogi'r rhain trwy gyflwyno adroddiadau ysgrifenedig.
k. Cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon am blant (ffeiliau dysgwyr unigol - yn nodi dyddiad, digwyddiad a'r camau a gymerwyd), hyd yn oed pan nad oes angen cyfeirio'r mater ar unwaith at asiantaethau sy'n gyfrifol am ymchwiliad ffurfiol.
l. Sicrhau bod yr holl gofnodion a ffeiliau'n cael eu cadw'n ddiogel ac mewn lleoliadau dan glo. Y Person Diogelu Dynodedig sy'n gyfrifol am ddiogelwch, llunio a storio'r holl gofnodion a dylai allu cael mynediad atynt a'u dangos pan fydd angen. Cyfrifoldeb y Person Diogelu Dynodedig yw sicrhau bod unrhyw drosglwyddo cofnodion yn cael ei wneud mewn modd sensitif a diogel.
m. Cadw at y gweithdrefnau a nodir yn Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol: Canllawiau diwygiedig i gyrff llywodraethu
n. Sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio a dethol yn cael eu gwneud yn unol â Chanllawiau Cadw Dysgwyr yn ddiogel Llywodraeth Cymru, canllawiau cenedlaethol a lleol. Bydd yr ysgol/lleoliad yn ceisio cyngor a chanllawiau gan yr adran Adnoddau Dynol briodol am recriwtio a dethol.
o. Dynodi llywodraethwr ar gyfer diogelu a fydd yn goruchwylio polisi ac arfer diogelu'r ysgol. Bydd y llywodraethwr hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Corff Llywodraethu am faterion diogelu yn ôl y gofyn ond bydd yn ofynnol iddo/iddi ysgrifennu adroddiad blynyddol i'r corff llywodraethol am weithgareddau diogelu'r ysgol.

Cefnogi plant sydd mewn perygl

4.1 Yn Ysgol Gymraeg Trefynwy rydym yn cydnabod bod y rhai sydd mewn perygl, yn dioddef camdriniaeth neu yn dyst i drais yn aml yn cael eu heffeithio mewn ffyrdd niweidiol, gall hyn effeithio'n ddwys ar rai.

Efallai mai'r ysgol hwn yw'r unig elfen sefydlog, ddiogel a rhagweladwy ym mywydau plant sydd mewn perygl. Ond, pan fyddant yn yr ysgol gall eu hymddygiad fod yn heriol/ yn peri

pryder a gall y dysgwr fewnoli (h.y. fynd i'w gragen) neu allanoli (h.y. bod yn heriol er enghraifft) fel dull o gyfleu ei ddigofaint, profiadau, emosiynau. Bydd yr ysgol yn ceisio cefnogi'r dysgwr trwy:

- gynnwys y cwricwlwm i annog hunan-barch a hunan-gymhelliad
- ethos yr ysgol fydd yn: - hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel - yn rhoi ymdeimlad o gael eu gwerthfawrogi i ddysgwyr (gweler yr adran ar Atal)
- Sicrhau bod oedolyn sydd ar gael yn emosiynol i'r dysgwr.
- polisi perthnasoedd ac ymddygiad yr ysgol, sydd wedi ei anelu at gefnogi disgyblion bregus yn yr ysgol. Bydd yr holl staff yn cytuno ar ddull cyson sy'n canolbwyntio ar ddeall a chefnogi'r dysgwr a'i brofiadau, i'w helpu i ddatblygu ffyrdd mwy addas o gyfleu eu gofid/ymddwyn. Dylai'r dulliau hyn ganolbwyntio ar gynnal ymdeimlad yr unigolyn o'i werth ei hun. Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod y dysgwr yn gwybod bod ymddygiad o ryw fath yn annerbyniol ond ei fod yn cael ei werthfawrogi ac nad yw i gael ei feio am unrhyw gamdriniaeth sydd wedi digwydd
- cyswllt gydag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r dysgwr fel swyddogion awdurdod lleol – er enghraifft y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, y Tîm Cefnogi Addysg neu'r Gwasanaeth Lles Addysg – gwasanaethau iechyd meddwl plant ac oedolion ifanc, a gwasanaethau eiriolaeth
- cadw cofnodion a hysbysu'r awdurdod lleol cyn gynted ag y mae pryder yn ail godi.

Pan fydd dysgwr ar y gofrestr amddiffyn plant yn gadael, byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth i'r darparwr newydd ar unwaith ac yn hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol.

4.2 Yn Ysgol Gymraeg Trefynwy byddwn yn ceisio bod yn amyneddgar a chefnogol i'r rhai sydd mewn perygl o ddioddef niwed neu gamdriniaeth.

Dyletswyddau Prevent

Ym Mawrth 2015, derbyniodd y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch y Cydsyniad Brenhinol. Mae'r Ddeddf yn cynnwys sut y mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth.

Pan fyddwn yn dod yn ymwybodol o wybodaeth sy'n ymwneud â dynodi enghreifftiau posibl o eithafiaeth a radicaleiddio, byddwn yn eu cyfeirio at Wasanaethau Oedolion/Plant yn yr un ffordd â phob pryder diogelu, yn ogystal ag ystyried cyfeirio at Prevent.

Atal a herio bwlio

Nodir ein polisi ar atal a herio bwlio mewn dogfen ar wahan yr ysgol ac mae'n cael ei adolygu gan y corff llywodraethol.

Mae amrywiaeth o ganllawiau gan Lywodraeth Cymru sy'n sail i'n dull.

Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllawiau ar gyfer rhieni a gofalwyr

Canllawiau i helpu rhieni a gofalwyr ymdrin â bwlio.

Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllawiau ar gyfer ysgolion

Canllawiau i helpu ysgolion ymdrin â bwlio.

Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol
Canllawiau i helpu awdurdodau lleol ymdrin â bwlio.

Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllaw i bobl ifanc
Canllawiau i helpu pobl ifanc ymdrin â bwlio.

Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllaw i blant
Canllawiau i helpu plant ymdrin â bwlio.

Bwlio: posteri i blant a phobl ifanc
Diweddariad ar y canllaw gwrth fwlio statudol diwygiedig.

Bwlio yn yr ysgol: canllawiau i rieni a gofalwyr
Beth i'w wneud os bydd eich plentyn yn cael ei fwlio.

Ymyrraeth gorfforol a chefnogaeth
Nodir ein polisi ar ymyrraeth gorfforol yn ddogfen ar wahân ac mae'n cael ei adolygu gan y corff llywodraethol ac mae'n cyd-fynd ag Ymyriadau diogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau.

Plant ag anghenion dysgu ychwanegol
Rydym yn cydnabod, yn ystadegol, bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol mewn mwyaf o risg o gael eu cam-drin. Mae angen i staff sy'n gweithio gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, fel anabledd dwys a lluosog, nam synhwyraidd, niwrowahaniaeth neu ddiffyg rheolaeth emosiynol ac ymddygiad, fod yn arbennig o sensitif i arwyddion o gamdriniaeth.

Ymgyrch Encompass
Lansiwyd Ymgyrch Encompass ar draws ysgolion Sir Fynwy ar 4 Mawrth 2019 fel rhan o gynllun trwy Went i ymdrin â chyfyngiadau ar rannu gwybodaeth yn gynnar rhwng yr Heddlu ag ysgolion. Ei nod yw diogelu plant a phobl ifanc y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, trwy sicrhau bod gwasanaethau addas yn cael gwybod am ddigwyddiad ar y cyfle cynharaf posibl.

Mae'r ysgol hon yn cefnogi Ymgyrch Encompass yn llawn, sydd â'r diben o ddiogelu a chefnogi'r plant a phobl ifanc hynny sydd wedi bod yn ddiddefwr o/ dyst a/neu fod yn bresennol ar adeg pan fu digwyddiad o gam-drin domestig.
Ar ôl i ddigwyddiad o'r fath ddigwydd, bydd plant yn aml yn cyrraedd yr ysgol yn ofidus a heb fod yn barod. Nod Ymgyrch Encompass yw sicrhau bod staff ysgol priodol yn cael gwybod mor gynnar â phosibl er mwyn rhoi cefnogaeth berthnasol ac wedi ei theilwrio i blant a phobl ifanc mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn teimlo eu bod yn ddiogel ac wedi eu cynnwys. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei rheoli'n sensitif, a dim ond staff sydd angen cael gwybod fydd yn gwybod am y pryder.

Cosbi corfforol ar blant

Ers 21 Mawrth 2022 mae pob cosbi corfforol ar blant yn anghyfreithlon yng Nghymru. Mae gan blant yn awr yr un amddiffyniad rhag ymosodiad ag oedolion. Bydd unrhyw bryderon am blant yn ymwneud â chosbi corfforol yn cael eu rheoli yn ôl y ddyletswydd gyfreithiol i roi adroddiad am bryderon diogelu.

Mae gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar gael i unrhyw un sydd ei angen, i'w helpu i ddod o hyd i ffyrdd cadarnhaol o reoli ymddygiad plant a helpu i osgoi sefyllfa felly rhag digwydd.

Gwybodaeth i rieni Magu plant. Rhowch amser iddo sy'n cynnig awgrymiadau ymarferol a chyngor arbenigol i annog ymddygiad da gan blant a dewisiadau heblaw cosbi corfforol.

Mae eu tudalen cymorth magu plant yn cynnig dolenni i ragor o gymorth a llinellau cymorth.

Rhoddir cymorth a chyngor magu plant cyffredinol gan fydwragedd, ymwelwyr iechyd, meddygon teulu a'ch awdurdod lleol.

Gall rhaglenni cymorth cynnar fel Dechrau'n Deg (os ydych yn bwy mewn ardal Dechrau'n Deg) a Teuluoedd yn Gyntaf hefyd gynnig cyngor a chymorth.

Gwybodaeth i'r holl staff/gwirfoddolwyr

5.1 Beth i'w wneud os bydd dysgwr yn dweud wrthych ei fod wedi ei gam-drin neu ei niweidio

Gall dysgwr gyfaddef wrth unrhyw aelod o'r staff/gwirfoddolwr. Dylai staff y gwneir honiad iddynt gofio:-

- Swyddogaeth wrando sydd gennych chi, peidiwch â thorri ar draws y dysgwr pan fydd yn cofio digwyddiadau. Cyfyngwch unrhyw gwestiynau i gael eglurder o ran eich dealltwriaeth o'r hyn y mae'n ei ddweud. Dylai unrhyw gwestiynau gael eu fframio yn agored fel nad ydych yn eu harwain;
- Rhaid i chi roi adroddiad ar lafar i'r **Person Diogelu Dynodedig neu ei Ddirprwy** yn ei absenoldeb yn syth i'w hysbysu o'r hyn sydd wedi ei ddatgelu. Yn y sefyllfa annhebygol pan fydd y ddau yn absennol chwiliwch am yr unigolyn â'r swydd uchaf yn y lleoliad;
- Cofnodwch y drafodaeth, cyn gynted ag sy'n rhesymol o ymarferol (ond cyn pen 24 awr) i'w drosglwyddo i'r Person Diogelu Dynodedig. Dylai'r cofnod a ddylai fod yn glir o ran terminoleg gofnodi'r amser, dyddiad, lle a'r bobl oedd yn bresennol a dylai gofnodi atebion/ymatebion y dysgwr yn union y ffordd y dywedwyd hwy cyn belled ag sy'n bosibl. Y cofnod hwn, yn y rhan fwyaf o achosion, fydd yr unig gofnod ysgrifenedig o'r hyn a ddatgelwyd a gan ei fod yn cofnodi'r datgelu cyntaf gan y person mae'n bwysig yn y broses ddiogelu. **Cofiwch,** y gall eich cofnod o'r drafodaeth gael ei ddefnyddio

mewn unrhyw ymchwiliad ffurfiol dilynol a/neu gamau yn y llys. Fe'ch cynghorir i gadw copi mewn man diogel;

- Peidiwch â rhoi ymrwymiad o gyfrinachedd llwyr. (Gweler y nodyn yn dilyn yr adran hon am fwy o fanylion). Bydd arnoch angen mynegi hyn mewn ffyrdd sy'n gysylltiedig ag oedran/dealltwriaeth y dysgwr cyn gynted ag sy'n bosibl yn ystod y datgelu. Gall hyn arwain at i'r dysgwr 'fynd i'w gragen' a pheidio â chwblhau'r datgeliad, ond bydd yn dal yn ofynnol i chi rannu'r ffaith ei fod wedi dechrau rhannu pryder gyda chi i'r Person Diogelu Dynodedig. Yn aml gall yr hyn sy'n cael ei rannu i gychwyn fod yn ddim ond copa mynydd iâ;
- Mae eich cyfrifoldeb o ran cyfeirio yn dod i ben ar y pwynt hwn, ond efallai y bydd gennych ran yn y dyfodol o ran cefnogi'r person, cyfrannu at asesiad neu gefnogi cynlluniau diogelu. Gallwch ofyn i'r person dynodedig am ddiweddariad ond mae'n cael ei gyfyngu gan weithdrefnau a chyfrinachedd a gall fod wedi ei gyfyngu o ran ei ymateb. Bydd lefel yr adborth ar sail yr angen i wybod, ond mae beth bynnag sy'n cael ei rannu yn gyfrinachol iawn ac nid yw i gael ei drafod gydag eraill.

Os gwneir honiad o gam-drin yn erbyn aelod o staff/gwirfoddolwr rhaid rhoi adroddiad am hyn i'r Person Diogelu Dynodedig. Pan fydd honiad yn erbyn aelod o staff rhoddir adroddiad i'r Gwasanaethau Plant/Oedolion yn yr un ffordd ag y byddai honiadau o gam-drin.

Os gwneir honiad yn erbyn y Pennaeth, rhaid i chi roi adroddiad am hyn i Gadeirydd y Llywodraethwyr, a rhaid ceisio cyngor gan y Swyddog Arweiniol Diogelu mewn Addysg neu Wasanaethau Plant os na ellir eu cyrraedd.

Bydd y Prifathro a'r Person Diogelu Dynodedig wedi darllen a deall Diogelu Plant mewn Addysg - Delio â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill.

Cyfrinachedd

6.1 Gall dysgwr deimlo yn hyderus i gyfaddef wrth aelod o staff/gwirfoddolwr yn unig os bydd yn teimlo na fydd y wybodaeth yn cael ei rhannu ag unrhyw un arall. Ond mae gennym oll ddyletswydd i rannu gwybodaeth berthnasol am ddiogelu plant ac oedolion gyda'r asiantaethau statudol dynodedig pan fydd unigolyn yn dioddef niwed neu gamdriniaeth.

Mae'n bwysig i bob aelod o staff/gwirfoddolwr ymdrin â hyn yn sensitif ac esbonio i'r dysgwr bod rhaid iddynt roi gwybod i'r bobl briodol a all eu helpu, ond dim ond dweud wrth y rhai sydd angen gwybod y byddant er mwyn gallu helpu. Dylai staff gysuro'r dysgwr a dweud wrtho/wrthi na fydd eu sefyllfa yn wybodaeth gyffredin yn yr ysgol (h.y. ni fydd yn cael ei thrafod gyda staff eraill). Mae angen i staff/gwirfoddolwyr wybod y gall fod wedi cymryd cryn ddewrder ar ran y dysgwr i ddatgelu'r wybodaeth ac y gall hefyd fod yn profi emosiynau sy'n gwrthdaro, yn cynnwys euogrwydd, cywilydd, diffyg teyrngarwch (os yw'r un sy'n cam-drin yn rhywun agos) ac wedi'i frifo.

Hyfforddiant

Bydd yr ysgol yn gwybod am y gofynion a'r canllawiau hyfforddiant cenedlaethol a lleol, a fydd yn cynnwys canllawiau GSB, cyngor a chyfleoedd hyfforddi.

7.1 Bydd yr ysgol yn sicrhau bod y Person Diogelu Dynodedig wedi derbyn hyfforddiant cychwynnol wrth gychwyn ar ei swydd a diweddariadau proffesiynol parhaus yn ôl y gofyn. Awgrymir diweddariadau penodol gan ofynion
cenedlaethol a lleol a byddant yn ganolog i ddatblygiad y Person Diogelu Dynodedig. Bydd y dirprwy dynodedig ar y dechrau'n cael ei gefnogi gan y person dynodedig a rhoddir ystyriaeth i gyfleoedd hyfforddi ar y cyd gyda'r Person Diogelu Dynodedig.

7.2 Bydd yr holl staff/gwirfoddolwyr yn cael eu diweddaru'n gyson yn ystod y flwyddyn fel bydd yn briodol gan yr arweinydd dynodedig ond byddant yn derbyn hyfforddiant codi ymwybyddiaeth benodol cyn pen cyfnod o 2 flynedd.

Y Person Diogelu Dynodedig yn y lleoliad hwn yw:-
Kathryn Matthews, Pennaeth,
01600 738103
ysgolgymraegtrefynwy@monmouthshireschools.wales

Y Dirprwy Berson Diogelu Dynodedig yn y lleoliad hwn yw:-
Hannah Stephens, Athrawes arweiniol
01600 738103
ysgolgymraegtrefynwy@monmouthshireschools.wales

Y Swyddog Arweiniol ar gyfer Diogelu mewn Addysg ar gyfer Cyngor Sir Fynwy yw:-
Heather Heaney
Ffôn: 01633 644392
E-bost; HeatherHeaney@monmouthshire.gov.uk

Gellir cysylltu â **Gwasanaethau Plant Sir Fynwy** fel a ganlyn:-

Ffôn: 01291 635669

Rhif y gwasanaeth ffôn tu allan i oriau: 0800 328 4432

Gellir cysylltu â **Gwasanaethau Oedolion Sir Fynwy** fel a ganlyn:-

Ffôn: 01873 735492

Rhif y gwasanaeth ffôn tu allan i oriau: 0800 328 4432

Mewn argyfwng, ffoniwch 999 i roi adroddiad bod oedolyn bregus mewn perygl

- Dydd Llun i ddydd Gwener 9am to 5pm rydym yn gweithredu gwasanaeth ar ddyletswydd ym mhob ardal.

- Os ydych yn rhoi adroddiad am oedolyn mewn perygl sy'n byw yn ne Sir Fynwy, gallwch siarad â rhywun ar y rhif ffôn 01291 635666.
- Os ydych yn rhoi adroddiad am oedolyn mewn perygl sy'n byw yn ardal y Fenni, gallwch siarad â rhywun ar y rhif ffôn 01873 735885.
- Os ydych yn rhoi adroddiad am oedolyn mewn perygl sy'n byw yn ardal Trefynwy, gallwch siarad â rhywun ar y rhif ffôn 01600 775100.
- Y tu hwnt i oriau swyddfa gallwch gysylltu â Thîm Dyletswydd Argyfwng Gwasanaethau Oedolion ar 0800 3284432.

Diweddarwyd y polisi hwn ar 16/1/2025 **ac mae'n cael ei adolygu'n flynyddol**.

Llofnod

_____ Pennaeth

_____ Cadeirydd y Llywodraethwyr

_____ Dyddiad